

# Rhowch Gynnig Arni

## Canllawiau


Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol Cymru
National Music Service Wales

## Hygyrchedd

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, fformat hawdd ei ddarllen, braille, sain ac Arwyddeg a bydd yn ymdrechu i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw am y Gymraeg neu'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

## Cynnwys

Cyflwyniad ..... 3
Rhowch Gynnig Arni ..... 4
Pwy sy'n gallu ymgeisio? ..... 5
Gaf i ymgeisio i Rowch Gynnig Arni yn ogystal â chronfeydd eraill? ..... 6
Am beth gallaf ymgeisio? ..... 7
Ble a phryd y gall y gweithgarwch ddigwydd? ..... 9
Pwy sy'n gallu cyflawni'r gweithgarwch? ..... 9
Am faint y gallaf ymgeisio? ..... 10
Sut rydw i'n llenwi'r gyllideb? ..... 11
Sut y gallaf ymgeisio? ..... 13
Beth os oes gennyf gwestiwn? ..... 13
Beth yw'r dyddiad cau? ..... 13

## Cyflwyniad

Gall profi'r celfyddydau fod yn ysbrydoledig, yn heriol, yn ddeniadol ac yn hwyl, ac mae ganddo ran bwysig i'w chwarae ym mhrofiadau dysgu ein pobl ifanc ble bynnag yng Nghymru y maent yn byw.

Credwn y dylai ein holl blant a phobl ifanc gael y cyfle i gael eu hysbrydoli a'u cyffroi gan y gorau sydd gan y celfyddydau mynegiannol yng Nghymru i'w gynnig. Boed hynny er mwyn 'rhoi cynnig arni' ar rywbeth newydd, datblygu eu sgiliau creadigol ac artistig neu feithrin eu lles a'u hunan-barch. Gall natur ddeinamig y celfyddydau mynegiannol ennyn diddordeb, ysgogi ac annog dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau i'r eithaf.

Gall dysgu yn, trwy ac am y celfyddydau mynegiannol alluogi dysgwyr i brofi ysbrydoliaeth a grym y celfyddydau, wedi'i gyfoethogi trwy bartneriaethau â gweithwyr creadigol proffesiynol a sefydliadau diwylliannol.

Drwy Faes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol, anogir athrawon/ymarferwyr i gynnig cyfleoedd sy'n cefnogi disgyblion i ddatblygu eu gallu i werthfawrogi gweithiau creadigol a magu eu doniau creadigol a'u sgiliau artistig a pherfformio. Mae profi'r celfyddydau mynegiannol yn cynnwys dwy broses sylfaenol: creu celfweithiau ac archwilio celfweithiau pobl eraill.

Rydym yn cefnogi athrawon i gynnig y cyfleoedd yma i'w disgyblion drwy ddwy gronfa ar wahân:

- **Ewch i Weld** sy'n galluogi ysgolion i fynd â disgyblion allan i brofi gweithiau creadigol pobl eraill. Gallai fod yn ymweliad â'r theatr, cyngerdd, ymweld ag oriel gelf neu unrhyw brofiad celfyddydol arall o safon. Mae'r gronfa hefyd yn cefnogi athrawon i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i waith pobl eraill a meddwl amdanynt a gellir rhoi'r grant tuag at gost tocynnau a theithio.
- **Rhowch Gynnig Arni** sy'n galluogi athrawon i fanteisio ar arbenigedd Ymarferwyr Creadigol o'r tu allan i'r ysgol. Gellir defnyddio'r gronfa i drefnu gweithdai sy'n ymwneud â'r celfyddydau mynegiannol ar gyfer eich disgyblion, yn yr ysgol neu'r tu allan iddi, ac fel sesiynau ar eu pen eu hunain neu rai blasu.

Mae'r ddwy gronfa yn cynnig profiadau cyforiog, dilys sy'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion archwilio mathau, technegau, offer, deunyddiau ac ymarferion.

Gall ysgolion wneud cais am y ddwy gronfa fwy nag unwaith drwy gydol y flwyddyn academaidd.

I gael gwybod rhagor am Ewch i Weld, ewch i'n gwefan.

# Rhowch Gynnig Arni

Mae'r gronfa Rhowch Gynnig Arni yn cynnig grantiau hyd at £1,500 i alluogi athrawon mewn ysgolion a gynhelir gan y wladwriaeth yng Nghymru i fanteisio ar arbenigedd Ymarferwyr Creadigol allanol sy'n gweithio yn y celfyddydau mynegiannol. Gall athrawon ddefnyddio'r gronfa i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion 3-16 oed roi cynnig ar weithgarwch ymarferol neu weithdy sy'n canolbwyntio ar ddatblygu gwybodaeth a sgiliau yn y celfyddydau mynegiannol. Gall y gweithgarwch ddigwydd naill ai yn yr ystafell ddosbarth neu mewn sefydliad celfyddydol/diwylliannol neu weithle ymarferydd creadigol.

Diben Rhowch Gynnig Arni yw datblygu gwybodaeth a sgiliau penodol yn y celfyddydau mynegiannol yn hytrach na defnyddio'r celfyddydau mynegiannol fel cyfrwng i ddatblygu meysydd dysgu a phrofiad eraill ar draws y cwricwlwm.

Os bydd eich gweithgarwch arfaethedig yn rhan o gynllun trawsgwricwlaidd ehangach, gallwch wneud cais o hyd, ond dim ond am y gweithgarwch neu'r gweithdy yr hoffech ei gyflwyno yn y celfyddydau mynegiannol. Amlinellwch y wybodaeth a'r sgiliau yn y celfyddydau mynegiannol y bydd y disgyblion yn eu datblygu. Y pum disgyblaeth a gwmpesir gan Rowch gynnig arni yw: cerddoriaeth, celf, dawns, drama, ffilm a'r cyfryngau digidol.

Mae Rhowch Gynnig Arni yn cefnogi cyflwyno'r Rhaglen Lywodraethu 2021–26 a'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol.

## Gwybodaeth bellach

www.hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-celfyddydau-mynegiannol

www.llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu

www.llyw.cymru/cynllun-cenedlaethol-ar-gyfer-addysg-cerddoriaeth

## Pwy sy'n gallu ymgeisio?

**Mae Rhowch Gynnig Arni i gefnogi:**

- pob ysgol a gynhelir gan y wladwriaeth yng Nghymru ar gyfer disgyblion 3-16 oed.
- unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru ar gyfer disgyblion 3-16 oed.

Ni allwn gefnogi addysg ôl-16, gan gynnwys Colegau Addysg Bellach a'r Chweched Dosbarth.

**Gellir cyflwyno ceisiadau gan y canlynol:**

- ysgol a gynhelir gan y wladwriaeth.
- uned cyfeirio disgyblion.
- sefydliad celfyddydol/diwylliannol sydd yng Nghymru.

Ni all Ymarferwyr Creadigol/unigolion gyflwyno ceisiadau i Rowch gynnig arni. Rhaid i geisiadau sy'n cynnwys gweithgarwch a ddarperir gan Ymarferydd Creadigol gael eu cyflwyno gan yr ysgol neu'r uned cyfeirio disgyblion.

Rhaid i sefydliadau celfyddydol ac Ymarferwyr Creadigol fod yng Nghymru.

“Roedd yr holl broses yn llwyddiannus. Mae'r cais yn hawdd ei ddefnyddio ac yn syml i'w llenwi. Roedd y gweithgarwch yn gwella addysgu a dysgu Maes Profiad a Dysgu'r Celfyddydau Mynegiannol yn berffaith. Roedd rhyddid i'r plant drafod a chynllunio eu gwaith animeiddio. Rhaid i'r plant drafod opsiynau ar gyfer deunyddiau crefft a lliwiau oedd yn fodd i siarad am liwiau cyferbyniol, goleuadau a thywyllwch a defnyddio gwahanol arlliwiau at wahanol ddibenion.”

Athro
Gweithdy Animeiddio

# Gaf i ymgeisio i Rowch Gynnig Arni yn ogystal â chronfeydd eraill?

## Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion

Gallwch wneud cais am Rowch gynnig arni yn ogystal â:

- mentrau dysgu creadigol eraill megis y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, Cynefin: Cymru ddiwylliannol ac ethnig amrywiol neu Ewch i Weld i gefnogi eich disgyblion.
- gallwch ymgeisio fwy nag unwaith drwy gydol y flwyddyn, ond mae'n rhaid ichi gyflwyno eich adroddiad diweddu cyn ailymgeisio. Bydd ceisiadau newydd a gyflwynir i Rowch gynnig arni cyn derbyn adroddiadau diweddu yn cael eu gwrthod.

Ni allwch:

- Cael mwy nag un cais Rhowch Gynnig Arni ar agor ar y tro.
- Defnyddio Rhowch Gynnig Arni mewn gweithgarwch sy'n gysylltiedig â'ch gweithgaredd Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol neu Gynefin: Cymru ddiwylliannol ac ethnig amrywiol.
- Defnyddio arian Cyngor Celfyddydau Cymru neu'r Loteri Genedlaethol i ariannu eich cais Rhowch Gynnig Arni.

## Sefydliadau celfyddydol

Gallwch wneud cais am Rowch Gynnig Arni:

- Yn ogystal â bod â grantiau eraill Cyngor Celfyddydau Cymru.
- Mwy nag unwaith drwy gydol y flwyddyn, ond mae'n rhaid ichi gyflwyno eich adroddiad diweddu cyn ailymgeisio. Bydd ceisiadau newydd a gyflwynir i Rowch Gynnig Arni cyn derbyn adroddiadau diweddu yn cael eu gwrthod.

Ni allwch:

- Cael mwy nag un cais Rhowch Gynnig Arni ar agor ar y tro.
- Defnyddio Rhowch Gynnig Arni i gefnogi eich gweithgarwch sydd ar waith eisoes.
- Defnyddio arian Cyngor Celfyddydau Cymru neu'r Loteri Genedlaethol i ddarparu arian cyfateb i'ch cais Rhowch Gynnig Arni.

## Am beth gallaf ymgeisio?

### Gellir defnyddio Rhowch Gynnig Arni i ariannu:

Cyfleoedd i ddisgyblion 3-16 oed roi cynnig ar weithgarwch neu weithdy ymarferol untro sy'n canolbwyntio ar ddatblygu gwybodaeth a sgiliau disgyblaeth benodol yn y celfyddydau mynegiannol a ddarperir gan naill ai sefydliad celfyddydol neu Ymarferydd Creadigol yng Nghymru.

Mae gan bawb syniadau gwych ond dyma rai enghreifftiau o weithgarwch a gweithdai yn seiliedig ar y ceisiadau a gafodd arian gennym:

- Nodwyd dawns gan ddisgyblion grŵp Llais Disgyblion y celfyddydau mynegiannol yn agwedd yr hoffent ymwneud â hi ond roedd y staff yn llai hyderus wrth ei thrin. Gwahoddodd yr ysgol ymarferydd dawns i ddatblygu sgiliau'r ddawns ymhlith y disgyblion a galluogi'r staff i gynnwys dawns fel rhan o gynllun ehangach ar gyfer dysgu sy'n dathlu amrywiaeth diwylliannol.
- Bu'r disgyblion yn gweithio gyda chynhyrchydd radio i ddysgu sut i ddefnyddio gorsaf radio'r ysgol a rhoi cynnig ar greu podlediad. Rhoddodd y disgyblion gynnig ar dechnegau penodol ac archwilio geirfa dechnegol newydd.
- Ymwelodd y disgyblion â stiwdio argraffu lle cawsant eu tywys drwy bob un o'r camau yr oedd eu hangen i wneud printiau sgrin. Roedd y gweithgarwch yn rhan o ymholiad mwy ac yn rhoi cyfle i ddisgyblion roi cynnig ar weithgarwch na fyddai fel arfer ar gael oherwydd offer cyfyngedig yr ysgol.
- Gwahoddodd yr ysgol wahanol ymarferwyr cerddorol i roi cyfle i ddisgyblion ar draws yr ysgol gymryd rhan a rhoi cynnig ar wahanol fathau, technegau ac offerynnau cerddorol gan gynnwys bîtbocs a samba.

Rydym yn annog ceisiadau sy'n canolbwyntio ar archwilio proses a datblygu sgiliau, yn hytrach na chanlyniad pendant neu brosiect cyflawn.

**Ni allwn ddarparu arian ar gyfer:**

- Prosiectau neu weithgarwch sy'n canolbwyntio ar brosiectau. Diben Rhowch Gynnig Arni yw datblygu gwybodaeth a sgiliau penodol drwy weithgarwch neu weithdy untro yn y celfyddydau mynegiannol: cerddoriaeth, celf, dawns, drama, ffilm a'r cyfryngau. Ni fyddwn yn cefnogi prosiectau na thalu costau sy'n gysylltiedig â chyflawni prosiect, er enghraifft:
  - costau cynllunio, gwerthuso, gweinyddu neu rai wrth gefn
  - canlyniadau pendant megis murluniau, gosodiadau celf, perfformiadau neu gynyrchiadau
  - gweithgaredd neu ddigwyddiadau dathlu
  - marchnata neu ddogfennu prosiect
  - unrhyw weithgarwch arall sy'n gysylltiedig â phrosiect.
- Gweithgarwch sydd eisoes wedi dechrau, eisoes wedi digwydd neu y gallai ddigwydd heb ein harian. Nid ydym yn gwarantu arian, felly ni ddylid trefnu na thalu am unrhyw weithgarwch cyn cael ein cymeradwyaeth.
- Gweithgarwch mae'r disgyblion yn cael mynediad ato'n rheolaidd neu sydd eisoes ar gael iddynt.
- Gweithgarwch sy'n defnyddio'r celfyddydau mynegiannol fel cyfrwng i ddarparu dysgu ar draws meysydd dysgu a phrofiad eraill ar draws y cwricwlwm. Diben Rhowch Gynnig Arni yw datblygu gwybodaeth a sgiliau penodol ym Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol.
- Gweithgarwch nad yw'n cael ei gynnwys ym mhum disgyblaeth Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol (cerddoriaeth, celf, dawns, drama, ffilm a'r cyfryngau digidol).
- Gweithgarwch ac adnoddau rhithiol neu ar-lein.
- Hyfforddiant cerddorol – sef gwersi cerddorol unigol, gwersi cerddorol neu sesiynau parhaus, yn hytrach na gweithdy neu roi cynnig ar rywbeth newydd.
- Gweithgarwch a ddarperir gan y Gwasanaethau Cerddorol. Mae hyn yn cael ei gwmpasu gan y cynllun cenedlaethol ar gyfer addysg gerddorol.
- Gwariant cyfalaf/prynu offer gan gynnwys offerynnau cerdd, offer cyfryngau digidol, camerâu, peiriannau gwnïo ac ati.
- Trwyddedau meddalwedd.
- Aros dros nos neu luniaeth.
- Gweithgarwch sy'n digwydd y tu allan i Gymru.
- Gweithgarwch nad yw'n cael ei gyflwyno yn yr ysgol, mewn sefydliad celfyddydau/diwylliannol neu weithle Ymarferydd Creadigol.
- Staffio, staff cyflenwi neu gefnogaeth ychwanegol (gallwch gynnwys hyn fel arian cyfatebol gennych chi).

## Ble a phryd y gall y gweithgarwch ddigwydd?

Gall y gweithgarwch neu’r gweithdy ddigwydd:

- yn yr ysgol
- mewn lleoliad celfyddydol/diwylliannol yng Nghymru
- mewn lleoliad addas arall yng Nghymru.

Gellir cynnal y gweithgarwch neu’r gweithdy yn ystod oriau ysgol neu fel gweithgarwch allgyrsiol. Gall fod yn sesiwn unigol neu nifer o sesiynau. Ond ni allwn ariannu gweithgarwch sy’n digwydd dros gyfnod o fwy nag un tymor.

Ni allwn ariannu ceisiadau gyda dyddiad cychwyn yn y gorffennol. Sicrhewch eich bod yn cynnwys dyddiad arfaethedig ar gyfer y gweithgarwch neu’r gweithdy, gallwch gysylltu â ni bob amser i newid hyn os oes angen.

## Pwy sy’n gallu cyflawni’r gweithgarwch?

Gall y gweithgarwch neu’r gweithdy gael ei gyflwyno gan sefydliad celfyddydol neu Ymarferydd Creadigol (neu artist) sydd wedi ei leoli yng Nghymru.

Er mwyn asesu’r cais, rhaid cynnwys yn y ffurflen gais y partner cyflawni a’r ysgol/ysgolion sy’n cymryd rhan. Bydd ceisiadau nad ydynt yn cynnwys y partner cyflawni neu enw’r ysgol/ysgolion yn cael eu gwrthod. Cyfrifoldeb yr ysgol yw sicrhau bod gwiriadau cywir y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith.

Ni all y partner cyflawni fod yn athro mewn ysgol.

## Am faint y gallaf ymgeisio?

Byddwn yn ariannu hyd at **90%** o gyfanswm cost eich gweithgarwch neu weithdy hyd at uchafswm o £1,500. Os yw cyfanswm cost eich gweithgarwch yn fwy na £1,500, bydd angen i chi ddod o hyd i'r arian ychwanegol.

Pan fyddwch yn cyfrifo eich arian cyfatebol, cofiwch ein bod yn ariannu **90% o gyfanswm y gost** hyd at £1,500. Mae'n werth defnyddio cyfrifiannell canrannol ar-lein ar gyfer hyn ac yn talgrynnu i'r bunt agosaf, gan nad ydym yn talu grantiau mewn ceiniogau.

Dyma rai enghreifftiau:

- Os mai cyfanswm cost y gweithgarwch yw **£1,500, byddwn yn dyfarnu 90% (£1,350)** ichi gyda'r £150 ychwanegol wedi'i nodi gennych yn arian cyfatebol yn eich cais.
- Os mai cyfanswm cost y gweithgarwch yw **£1,650, byddwn yn dyfarnu 90% (£1,485)** ichi gyda'r £165 ychwanegol wedi'i nodi gennych yn arian cyfatebol yn eich cais.
- Os mai cyfanswm cost y gweithgarwch yw **£2,000, byddwn yn dyfarnu 75% (£1,500)** ichi fel uchafswm y grant gyda'r £500 ychwanegol wedi'i nodi gennych yn arian cyfatebol yn eich cais.

Bydd y swm y byddwch yn gwneud cais amdano yn dibynnu ar y math o weithgarwch a wnewch ac rydym yn rhagweld mai'r lleiafswm fyddai £150 ar gyfer gweithdy hanner diwrnod heb unrhyw adnoddau na theithio ac arian cyfatebol mewn nwyddau, hyd at y £1,500 llawn.

Nid oes sicrwydd y bydd arian yn cael ei roi, felly ni ddylid ymrwymo arian cyn cael ein cymeradwyaeth.

# Sut rydw i'n llenwi'r gyllideb?

Yn eich cais, gofynnir pedwar cwestiwn ichi ynglŷn â sut y byddwch yn gwario'r grant ac un cwestiwn i roi gwybod inni sut y byddwch yn cyfrannu'r arian cyfatebol o 10%. Nid oes angen ichi lenwi ffurflen gyllideb na chyflwyno cyllideb ar wahân.

Bydd angen ichi nodi:

- cost ffioedd proffesiynol artistiaid, Ymarferwyr Creadigol a sefydliadau celfyddydol gan gynnwys unrhyw gostau teithio
- cost llogi bysiau neu gostau cludiant cyhoeddus os oes angen
- cost yr adnoddau sydd angen i gyflawni'r gweithgarwch (hyd at £500)
- cost llogi offer os oes angen
- sut y byddwch yn cyfrannu 10% o arian cyfatebol.

Os yw'r gweithgarwch yn rhan o gynllun ehangach o ddysgu trawsgwricwlaidd, prosiect, dathliad neu ddigwyddiad, sicrhewch fod eich cyllideb ddim ond yn cynnwys y costau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chyflwyno'r gweithgarwch neu'r gweithdy.

Yr unig gostau y gallwn eu hariannu yw'r rhai sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chyflwyno'r gweithgarwch neu'r gweithdy.

## Canllaw ar gyfer ffioedd proffesiynol artistiaid ac ymarferwyr creadigol

Nid oes canllaw benodol am faint y bydd eich gweithdy neu weithgarwch yn ei gostio, byddwch yn ei drafod gyda'r partner cyflwyno. Ond ein ffi isaf a argymhellwn ar gyfer talu Ymarferwyr Creadigol yw £300 y dydd ynghyd â theithio, £150 yr hanner diwrnod ynghyd â theithio.

Dylai'r ffioedd gynnwys TAW lle bo hon yn berthnasol.

## Canllaw ar gyfer llogi adnoddau ac offer

Wrth nodi sut yr hoffech wario'r grant ar adnoddau a llogi offer, sicrhewch eich bod yn rhestru'r eitemau gyda dadansoddiad o'r costau cysylltiedig.

Ni allwn dalu am:

- gwariant cyfalaf neu brynu offer megis, offerynnau, offer cyfryngau digidol, sgriniau gwyrdd, camerâu, peiriannau gwnïo, dymis teilwra ac ati, ond gallwch gynnwys y fath eitemau yn rhai y mae'n rhaid eu llogi os oes angen
- trwyddedau meddalwedd
- gweithgarwch neu adnoddau rhithiol neu ar-lein.

## Canllaw ar gyfer arian cyfatebol

Gall arian cyfatebol fod yn gymysgedd o arian parod neu gefnogaeth mewn nwyddau.

**Canllaw i ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion ar arian cyfatebol o 10%**

Gall hyn fod mewn nwyddau fel cyflenwi athrawon neu gallai fod yn arian parod gan gyfraniadau codi arian gan rieni neu Gymdeithas Rhieni Athrawon. Nid oes angen ichi anfon yr arian cyfatebol atom yn uniongyrchol, rhowch wybod inni sut y bydd yn cael ei gynnwys yn eich cais.

**Canllaw i sefydliadau'r celfyddydau ar arian cyfatebol o 10%**

Rhaid i'r 10% sy'n weddill o'r incwm beidio â dod oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru neu'r Loteri Genedlaethol a gall gynnwys cefnogaeth mewn nwyddau.

## Dogfennau ychwanegol

Ni fyddwn yn derbyn atodiadau neu ddogfennau ychwanegol fel rhan o'ch cais. Mae Rhowch Gynnig Arni wedi'i gynllunio i fod yn gyflym ac yn hawdd ei ddefnyddio, dylech allu dweud popeth y mae angen inni ei wybod drwy ateb y cwestiynau ar y ffurflen gais ar-lein.

## Amodau grant ychwanegol

Os ydych wedi derbyn grant bydd angen ichi ei dderbyn drwy fewngofnodi i'ch cyfrif ar borth Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae angen ichi hefyd wirio eich cyfrif i weld a oes amodau ychwanegol y mae angen eu bodloni er mwyn inni allu rhyddhau eich taliad.

## Adroddiadau diweddu

Ar ôl i'ch gweithgarwch ddod i ben, bydd angen ichi gyflwyno adroddiad byr o'r hyn a gyflawnwyd drwy gymryd rhan. Gallwch gynnwys lluniau a dyfyniadau gan y disgyblion hefyd os ydych chi'n hapus inni eu gweld. Ar ôl ichi gyflwyno eich ffurflen, bydd eich grant ar gau a gallwch wneud cais eto.

Gellir dod o hyd i ddolen i'r ffurflen yma.

## Sut y gallaf ymgeisio?

I gael at y ffurflen gais, bydd angen ichi gofrestru ar y porth ar-lein.

Rydym yn argymell eich bod yn cofrestru o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn ichi ddechrau eich cais. Ar ôl ichi dderbyn eich manylion mewngofnodi, gallwch eu defnyddio i gael mynediad at holl ffurflenni cais Dysgu Creadigol Cymru ac ni fydd angen ichi ailgofrestru wrth wneud cais eto.

Os oes arnoch angen cymorth pellach i gael mynediad i'r porth ar-lein, cysylltwch â'n tîm Grantiau a Gwybodaeth:

- grantiau@celf.cymru
- 029 2044 1300 or neu 03301 242733 (llinell gymorth lle telir cyfradd galwadau lleol)

## Beth yw'r dyddiad cau?

Gallwch ymgeisio am arian ar unrhyw adeg. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddwch fel arfer yn clywed mewn 4 wythnos waith a yw'ch cais wedi llwyddo ai peidio. Rydym yn argymell cyflwyno eich cais o leiaf 5 wythnos waith cyn eich dyddiad dechrau er mwyn inni allu ei asesu. Gall ceisiadau a gyflwynir lai na 5 wythnos waith cyn y gweithgarwch arfaethedig gael eu gwrthod.

Cofiwch mai dim ond un cais Rhowch Gynnig Arni a all fod ar agor ar y tro. Rydym yn annog pob ymgeisydd i ystyried a fydd ceisiadau a gyflwynir 12 wythnos neu fwy cyn y gweithgarwch yn atal athrawon a disgyblion eraill yn yr ysgol rhag cael mynediad i'r gronfa.

## Beth os oes gennyf gwestiwn?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am Rowch Gynnig Arni, byddem yn hapus ichi gysylltu â ni.

E-bostiwch ni: dysgu.creadigol@celf.cymru

Byddwn yn gwneud ein gorau i ymateb i bob ymholiad cyn gynted ag y gallwn. Os ydych am inni eich ffonio'n ôl, rhowch eich rhif ffôn a gwnawn hynny cyn gynted â phosibl.

Dyma ragor am Faes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol.